

Strategaeth ar Gyfer Atal a Chanfod Twyll, Llygredigaeth a Llwgrwobrwyo

| | |
|---------------------------------------|------------------|
| Cymeradwywyd y Strategaeth gan | Cabinet |
| Dyddiad cymeradwyo | 21 Medi 2021 |
| Dyddiad rhoi ar waith | 11 Tachwedd 2021 |
| Perchnogion y Strategaeth | GW & LL |
| Dyddiad adolygu | 31 Hydref 2024 |

Strategaeth ar Gyfer Atal a Chanfod Twyll, Llygredigaeth a Llwgrwobrwyo

Cynnwys

| | |
|--|----|
| Cynnwys | 2 |
| Datganiad Polisi | 4 |
| Rhagarweiniad | 5 |
| Cwmpas a Diffiniadau | 6 |
| Amcanion y Strategaeth..... | 7 |
| Dull Gwrth-Dwyll | 7 |
| Mesurau Gwrth Dwyll..... | 8 |
| Llywodraethu | 8 |
| Cydnabod..... | 8 |
| Atal | 8 |
| Ymlid | 9 |
| Diogelu | 9 |
| Cyfrifoldebau..... | 11 |
| Aelodau: | 11 |
| Prif Weithredwr, Swyddog Monitro a'r Swyddog Adran 151 | 11 |
| Penaethiaid Gwasanaethau | 11 |
| Rheolwyr | 12 |
| Gweithwyr | 13 |
| Adnoddau Dynol..... | 13 |

Strategaeth ar Gyfer Atal a Chanfod Twyll, Llygredigaeth a Llwgrwobrwyo

| | |
|---|----|
| Technoleg Gwybodaeth | 13 |
| Contractwyr, derbynyddion cyllid a phartneriaid | 14 |
| Archwilio Mewnol | 14 |
| Archwilio Allanol | 14 |
| Rhoi Gwybod am Dwyll, Llwgrwobrwyo a Llygredigaeth | 15 |
| Rhannu Pryderon | 15 |
| Monitro ac Adolygu | 15 |
| Atodiad A: Cynllun Gweithredu Gwrth-Dwyll, Llygredigaeth a Llwgrwobrwyo | 16 |
| Atodiad B: Canllaw Rhoi Gwybod am Dwyll, Llygredigaeth a Llwgrwobrwyo | 18 |
| Appendix C: Risgiau o Dwyll | 20 |

Strategaeth ar Gyfer Atal a Chanfod Twyll, Llygredigaeth a Llwgrwobrwyo

Datganiad Polisi

Mae fframwaith llywodraethu Cyngor Sir Ddinbych yn sicrhau ein bod ni'n cynnal ein busnes yn unol â'r gyfraith a'r safonau priodol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu, ei gyfrif yn briodol ac yn cael ei ddefnyddio mewn modd economaidd, effeithlon ac effeithiol. Mae'n cynnwys disgwyliadau clir ar gyfer ymddygiad, gan gynnwys y saith egwyddor bywyd cyhoeddus y dylai pob un ohonom eu harfer: anhunanoldeb, uniondeb, gwrthrychedd, atebolrwydd, bod yn agored, gonestrwydd ac arweinyddiaeth.

Bydd disgwyl i bob aelod etholedig ac aelod cyfetholedig gadw at Orchymyn Ymddygiad Aelodau (Egwyddorion) (Cymru) 2001. Mae'r gorchymyn hwn yn ychwanegu at y saith egwyddor Nolan uchod drwy gynnwys gofynion mewn perthynas â stiwardiaeth, dyletswydd i gynnal y gyfraith a chydaddoldeb a pharch.

Mae'r polisi hwn yn ymdrin â thwyll, lladrad, llygredigaeth a llwgrwobrwyo. Nid yw'r Cyngor yn goddef unrhyw fath o dwyll, llygredigaeth na llwgrwobrwyo wrth ymgymryd ag unrhyw un o'i gyfrifoldebau.

Bydd y Cyngor yn atal twyll, llygredigaeth a llwgrwobrwyo drwy ddylunio a chreu polisiâu a systemau cymesur i leihau risg.

Bydd y Cyngor yn parhau i hyrwyddo canfod ac ymchwilio i dwyll, llygredigaeth a llwgrwobrwyo, gan gynnwys defnyddio sancsiynau a gweithdrefnau adennill cadarn ac effeithiol pan fo angen.

Mae'r Cyngor yn cydnabod bod llwgrwobrwyo yn drosedd. Nid yw'r Cyngor ac ni fyth byth yn talu llwgrwobrwyon nac yn cynnig unrhyw gymhelliad amhriodol i unrhyw un ar gyfer unrhyw bwrpas, ac ni fydd ychwaith yn derbyn llwgrwobrwyon na chymhellion amhriodol. Mae defnyddio trydydd parti i gynnig llwgrwobrwyon i eraill yn drosedd.

Nid yw'r Cyngor ac ni fydd byth yn ymwneud yn uniongyrchol â llwgrwobrwyfaeth nac yn annog hynny. Mae wedi ymrwmo i atal, rhwystro a chanfod llwgrwobrwyfaeth ac wedi mabwysiadu safbwynt i beidio â goddef unrhyw fath o llwgrwobrwyfaeth.

Strategaeth ar Gyfer Atal a Chanfod Twyll, Llygredigaeth a Llwgrwobrwyo

Rhagarweiniad

Mae twyll a llygredigaeth yn niweidiol i ddarpariaeth gwasanaethau, ac yn dargyfeirio adnoddau prin o bwrs y wlad. Mae hefyd yn niweidiol i enw da a ffydd pobl yn y Cyngor, a chyrrff cyhoeddus yn gyffredinol, ac i forâl y rheiny sy'n gweithio iddynt.

Mae'r Strategaeth ar gyfer Atal a Chanfod Twyll, Llygredigaeth a Llwgrwobrwyo yn un rhan o fframwaith o drefniadau sydd yn eu lle i atal twyll a chamweddau. Mae'r rhain yn cynnwys Polisi Rhannu Pryderon a Pholisi Atal Gwyngalchu Arian. Mae rhannau eraill o'r fframwaith llywodraethu hefyd yn cyfrannu at atal twyll a hyrwyddo ymddygiad moesol, fel Cod Ymddygiad yr Aelodau, Cod Ymddygiad Staff, Cofrestr Ddatganiadau o Gysylltiad, Datganiad o Anrhegion a Lletygarwch, Rheoliadau Ariannol, Rheolau'r Weithdrefn Contractau, polisïau Adnoddau Dynol (AD), ein hymrwymiad i dryloywder a'r fframwaith Rheoli Risg.

Mae'r Cyngor yn darparu neges glir na fydd yn goddef unrhyw ymddygiad amhriodol gan staff, aelodau etholedig, cyflenwyr, contractwyr, cwsmeriaid na thrydydd parti. Mae'r strategaeth hon yn amlinellu dull y Cyngor i fynd i'r afael â thwyll a llygredigaeth ac mae wedi derbyn cefnogaeth lawn yr Aelodau ac Uwch Dîm Arwain y Cyngor.

Strategaeth ar Gyfer Atal a Chanfod Twyll, Llygredigaeth a Llwgrwobrwyo

Cwmpas a Diffiniadau

Mae'r strategaeth hon yn ymdrin â holl fusnes, gweithgareddau a thrafodion y Cyngor neu rywun ar ei ran. Mae'n berthnasol i Aelodau a'r rheiny sy'n gweithio i neu gyda'r Cyngor, yn cynnwys gweithwyr, staff asiantaeth, ymgynghorwyr, contractwyr, partneriaid a gwirfoddolwyr. Mae'r Cyngor hefyd yn disgwyl i gontractwyr, cyllidwyr a phartneriaid fod â threfniadau gwrth-dwyll a llygredigaeth eu hunain ar waith.

Mae'r strategaeth hon yn ystyried darpariaethau Deddf Twyll 2006, Deddf Llwgrwobrwyo 2010, Deddf Dwyn 1968, Deddf Enillion Troseddau 2002, Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000, Deddf Dogfennau Hunaniaeth 2010, Deddf Atal Twyll Tai Cymdeithasol 2013, Deddf Ymgeisiau Troseddol 1981, Deddf Camliwio 1967, ynghyd ag arfer orau fel Rheoli Risg Twyll a Llygredigaeth CIPFA.

Yn gyffredinol twyll a llygredigaeth yw'r enwau a roddir ar unrhyw weithred o dwyll, dwyn neu llwgrwobrwyo a ddigwyddir neu a geisir. Mae twyll, dwyn a llwgrwobrwyo bob un wedi'u diffinio gan gyfraith:

Twyll: Mae twyll yn weithred fwriadol i geisio cael budd neu achosi colled i rywun arall. Gall hyn gynnwys: twyll drwy wneud datganiad, sylw neu hawliad ffug; drwy gelu gwybodaeth yn fwriadol neu drwy gamddefnyddio sefyllfa o ymddiriedaeth er budd personol.

Dwyn: Cymryd rhywbeth sy'n eiddo i rywun arall, yn anonest a heb ganiatâd gyda'r bwriad o amddifadu'r unigolyn hwnnw o rywbeth. Fel cymryd arian, cyflenwadau neu asedau fel cerbydau a chyfarpar.

Llwgrwobrwyo: Cynnig neu dderbyn unrhyw ffurf ar gymhelliad, arian neu fudd arall, gan weithiwr i wneud rhywbeth amhriodol, fel dyfarnu contract i'r sawl sy'n llwgrwobrwyo neu ddarparu gwybodaeth gyfrinachol neu sensitif.

Er eglurder a byrddra, defnyddir y term "twyll" yn y ddogfen hon i ddisgrifio pob un o'r uchod.

Strategaeth ar Gyfer Atal a Chanfod Twyll, Llygredigaeth a Llwgrwobrwyo

Amcanion y Strategaeth

Amcanion y strategaeth a'r Cynllun Ymateb i Dwyll yw:

- Cynnal a hyrwyddo diwylliant o beidio â goddef unrhyw dwyll a llygredigaeth
- Diogelu arian cyhoeddus ac adnoddau cyfyngedig y Cyngor a lleihau colledion yn sgil twyll a llygredigaeth cymaint â phosibl
- Darparu cysondeb o ran canfod achosion o dwyll ac ymchwilio iddynt, a chymryd camau cadarn yn erbyn y rheiny sy'n cyflawni twyll.

Dull Gwrth-Dwyll

Mae'r strategaeth hon yn cyd-fynd â Fighting Fraud & Corruption Locally Strategy for the 2020s Canolfan Gwrth-Dwyll CIPFA, sy'n darparu glasbrint ar gyfer ymateb cadarnach i dwyll a llygredigaeth a gyflawnir yn erbyn awdurdodau lleol. Mae'r Cyngor yn mabwysiadu pum egwyddor yn unol â Fighting Fraud & Corruption Locally Strategy for the 2020s.



Strategaeth ar Gyfer Atal a Chanfod Twyll, Llygredigaeth a Llwgrwobrwyo

Mesurau Gwrth Dwyll

Mae'r Fighting Fraud and Corruption Locally Strategy for the 2020s wedi'i fabwysiadu at ddibenion y strategaeth hon fel a ganlyn:

Llywodraethu

- Mae gan y Cyngor drefniadau llywodraethu cadarn ac mae'n defnyddio dull cyfannol i fynd i'r afael â thwyll a llygredigaeth
- Caiff risgiau twyll eu rheoli ar lefel uwch-reolwyr ac maent yn benodol i wasanaeth

Cydnabod

- Mae'r Cyngor yn cydnabod risgiau twyll ac mae Archwilio Mewnol wedi cynnwys archwiliadau gwrth-dwyll rhagweithiol yn ei gynllun archwilio
- Mae staff Archwilio Mewnol yn derbyn hyfforddiant er mwyn cydymffurfio â'u safonau proffesiynol. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant gwrth-dwyll i wella gallu'r Cyngor i atal, canfod ac ymchwilio i dwyll, llygredigaeth a llwgrwobrwyo
- Caiff risgiau twyll eu hasesu gan swyddogion ac fe gaiff risgiau sy'n dod i'r amlwg eu hystyried gan uwch-reolwyr a'r tîm Archwilio Mewnol. Caiff y rhain eu nodi fel rhan o drefniadau rheoli risg y Cyngor ac mae gan Archwilio Mewnol gofrestr risgiau twyll a ddefnyddir i hysbysu cynlluniau mewn perthynas ag adolygiadau gwrth-dwyll rhagweithiol

Atal

- Disgwylir i bob aelod o staff, yn enwedig rheolwyr, fod yn ymwybodol o'r posibilrwydd o dwyll a llygredigaeth ac i ddylunio a gweithredu gweithdrefnau i atal, rhwystro a chanfod twyll a llygredigaeth – yn enwedig wrth gynllunio a darparu prosiectau newydd a gweithio gyda thrydydd parti, lle gall y risg o dwyll fod yn uwch

Strategaeth ar Gyfer Atal a Chanfod Twyll, Llygredigaeth a Llwgrwobrwyo

- Mae gosod y diwylliant a'r safonau moesegol priodol yn dechrau ar frig y sefydliad ac yn cael ei atgyfnerthu fel rhan o'r trefniadau cyflwyno Aelodau a staff. Mae modiwlau e-ddysgu'r Cyngor yn ymdrin â gwerthoedd ac ymddygiad disgwylidig staff, gyda modiwl ar wahân ar gyfer rhannu pryderon. Bydd yr olaf yn cael ei adolygu i gynnwys y strategaeth hon a'r Cynllun Ymateb i Dwyll
- Pan nodir materion disgyblu yn ystod ymchwiliadau, bydd AD a rheolwyr yn cael gwybod er mwyn iddynt gymryd y camau gweithredu perthnasol. Pan fo'n briodol, bydd erlyniadau troseddol yn cael eu hystyried
- Pan gynhelir ymchwiliad i weithiwr, os yn briodol, mae'n bosibl y cyfeirir at yr adroddiad ymchwilio a/neu ei ddefnyddio mewn gweithdrefnau disgyblu
- Cyhoeddi gweithgareddau gwrth-dwyll perthnasol ac erlyniadau troseddol er mwyn dangos dull dim goddefgarwch y Cyngor
- Rhannu data a defnyddio technoleg gwybodaeth. Mae Archwilio Mewnol yn cydlynu Menter Twyll Genedlaethol ar ran y Cyngor ac yn defnyddio NAFN (National Anti-Fraud Network) i nodi risgiau o dwyll a lle gall hyn fod yn digwydd

Ymlid

- Bydd sancsiynau priodol yn cael eu hystyried pan ganfyddir twyll, yn cynnwys erlyniadau os yw hynny er budd y cyhoedd
- Bydd adennill colledion ac unrhyw elw troseddau yn cael ei ystyried ymhob achos priodol

Diogelu

- Cymerir pob cam angenrheidiol, yn cynnwys gweithio gydag awdurdodau lleol eraill, i ddiogelu'r Cyngor rhag twyll a llygredigaeth drefnedig
- Pan nodir gwendidau yn ystod adolygiad gwasanaeth, adborth gan staff, archwiliad mewnol neu ddigwyddiad, mae'n rhaid i'r rheolwr cyfrifol roi camau gweithredu ar

Strategaeth ar Gyfer Atal a Chanfod Twyll, Llygredigaeth a Llwgrwobrwyo

waith ar unwaith i gryfhau'r systemau sydd wedi'u heffeithio

Bydd mesurau atal twyll, elfen allweddol i ddiogelu'r Cyngor a thrigolion rhag twyll a llygredigaeth, yn cael eu defnyddio

Strategaeth ar Gyfer Atal a Chanfod Twyll, Llygredigaeth a Llwgrwobrwyo

Cyfrifoldebau

Mae'n rhaid sicrhau bod rolau a chyfrifoldebau ar gyfer canfod a lleihau'r risg o dwyll fod wedi'u deall a'u cynnwys yn effeithiol. Mae'r rhain wedi'u rhestru isod:

Aelodau:

- Arwain drwy esiampl, cynnal safonau uchel a'r deg egwyddor ymddygiad, a chadw at God Ymarfer yr Aelodau, y cyfansoddiad, y rheoliadau ariannol a'r deddfwriaethau perthnasol.
- Rhoi gwybod i'r Gwasanaethau Democrataidd am unrhyw achos o wrthdaro buddiannau ac anrhegion a lletygarwch a gynigiwyd neu a dderbyniwyd.
- Rhoi gwybod am unrhyw bryder ynghylch twyll, llwgrwobrwyo a llygredigaeth.

Prif Weithredwr, Swyddog Monitro a'r Swyddog Adran 151

- Bod yn hyrwyddwyr ar gyfer arferion gwrth-dwyll a llygredigaeth effeithiol.
- Darparu cyngor i bob Aelod Etholedig a staff ynglŷn â throsglwyddiadau, camweinyddu, amhriodoldeb ariannol, uniondeb a materion fframwaith polisi a chyllideb.
- Mae'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am gefnogi a chynnal safonau ymddygiad uchel ymhlith swyddogion, gan sicrhau goruchwyliaeth o gydymffurfiaid â'r protocol aelodau-swyddogion a gyda pholisïau eraill a fabwysiadwyd gan y Cyngor.
- Mae'r Swyddog Monitro yn annog hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel o fewn y Cyngor, drwy ddarparu cymorth i'r Pwyllgor Safonau yn arbennig.
- Mae gan y Swyddog Adran 151 gyfrifoldeb statudol dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 i sicrhau trefniadau priodol ar gyfer gweinyddu materion ariannol y Cyngor. Caiff y rôl hon ei chefnogi gan waith Archwilio Mewnol.

Penaethiaid Gwasanaethau

- Sicrhau bod cofrestrau risgiau yn adlewyrchu'r risgiau twyll, yn cynnwys risgiau sy'n dod i'r amlwg e.e. oherwydd newid mewn technoleg neu ddulliau gweithio, yn gywir.

Strategaeth ar Gyfer Atal a Chanfod Twyll, Llygredigaeth a Llwgwrwbrwyo

- Sicrhau bod gweithdrefnau rheoli yn effeithiol ac yn gweithio'n iawn i atal a chanfod gweithgareddau twyllodrus.
- Sicrhau y cedwir at y Rheoliadau Ariannol, yn cynnwys Rheolau'r Weithdrefn Gontractau.
- Sicrhau bod y rheiny sy'n ymwneud â gwaith gwrth-dwyll yn meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth briodol ac yn derbyn yr awdurdod a'r mynediad priodol i'w galluogi nhw i ymgymryd â'r gwaith yn effeithiol.
- Rhoi gwybod am unrhyw achos posibl o dwyll, llygredigaeth neu llwgwrwbrwyo ar unwaith i'r Swyddog Adran 151, Prif Archwilydd Mewnol a/neu'r Swyddog Monitro, a fydd yn darparu cyngor ar y ffordd orau i ddelio â'r honiad. Ni ddylid trafod y mater gydag aelodau eraill o'r tîm na chydweithwyr.
- Sicrhau y cedwir cofrestr o ddatganiadau o gysylltiad (a bod y Gwasanaethau Cyfreithiol yn ymwybodol ohonynt) a bod dulliau diogelu ar waith pan fo gwrthdaro buddiannau.

Rheolwyr

- Gosod a hyrwyddo ymrwymiad lefel uchel i ddiwylliant sefydliad cyfan o atal bob ffurf ar dwyll, llygredigaeth a llwgwrwbrwyo.
- Sicrhau bod y risg o dwyll yn cael ei hasesu yn y meysydd sy'n berthnasol i'r gwasanaeth.
- Sicrhau bod gweithdrefnau corfforaethol a systemau rheoli mewnol ar waith i ddiogelu'r adnoddau y maent yn gyfrifol amdanynt ac i ganfod gweithgareddau twyllodrus yn effeithiol.
- Sicrhau bod eu staff yn ymwybodol o ac yn cydymffurfio â gofynion y Cod Ymddygiad Staff, Rheoliadau Ariannol, Rheolau'r Weithdrefn Gontractau, Anrhegion a Lletygarwch, Cofrestr Cysylltiadau a pholisïau eraill y Cyngor.
- Pan fo twyll wedi digwydd, gweithredu rheolaethau newydd i leihau'r risg o achosion tebyg.
- Creu amgylchedd lle mae gweithwyr yn gallu mynd atynt i fynegi unrhyw bryder ynghylch achosion posibl o afreoleidd-dra.

Strategaeth ar Gyfer Atal a Chanfod Twyll, Llygredigaeth a Llwgrwobrwyo

- Rhoi gwybod am unrhyw achos posibl o dwyll, llygredigaeth neu llwgrwobrwyo ar unwaith i'r Swyddog Adran 151, Prif Archwilydd Mewnol a/neu'r Swyddog Monitro, a fydd yn darparu cyngor ar y ffordd orau i ddelio â'r honiad. Ni ddylid trafod y mater gydag aelodau eraill o'r tîm na chydweithwyr.

Gweithwyr

- Cadw at God Ymddygiad Staff a pholisïau'r Cyngor.
- Trin adnoddau ac arian y Cyngor yn briodol, yn cynnwys drwy systemau talu, derbynebaw, contractio a hawliadau grant.
- Ymgymryd â dyletswyddau yn ofalus ac yn onest, a dilyn gweithdrefnau ac arferion y Cyngor a chanllawiau i atal twyll a llygredigaeth.
- Bod yn wyliadwrus o ddigwyddiadau neu drafodion anarferol, a all fod yn ffactorau risg neu'n ddangosyddion twyll, a'u nodi'n rhagweithiol.
- Rhoi gwybod ar unwaith am unrhyw achos posibl o dwyll neu ymgais i dwyllo.
- Cydweithredu gydag unrhyw un sy'n cynnal gwiriadau, adolygiadau neu ymchwiliadau i dwyll yn fewnol.
- Datgan unrhyw fusnes neu gysylltiad personol i'r Pennaeth Gwasanaeth.

Adnoddau Dynol

- Sicrhau bod y broses recriwtio a'r Cod Ymddygiad Swyddogion yn cefnogi'r safonau ymddygiad uchaf.
- Cynghori a chefnogi rheolwyr i roi trefniadau gwahardd a disgyblu ar waith.
- Sicrhau bod materion cyflogaeth yn derbyn sylw mewn modd cyson a theg os oes unrhyw achos posibl o dwyll.

Technoleg Gwybodaeth

- Defnyddio mesurau diogelwch seiber, codi ymwybyddiaeth ac amlygu arfer orau i leihau'r risg o ymosodiadau gwe-rwydo a mathau eraill o dwyll digidol.
- Datblygu systemau mewn ffordd sy'n cyfyngu ar ac yn mynd i'r afael â thwyll.

Strategaeth ar Gyfer Atal a Chanfod Twyll, Llygredigaeth a Llwgrwobrwyo

Contractwyr, derbynyddion cyllid a phartneriaid

- Cadw at amodau a thelerau contract y Cyngor neu delerau grantiau, yn cynnwys darpariaethau yn ymwneud â rheolaeth ariannol, gwrth-llwgrwobrwyo a safonau neu ymddygiad.
- Rhoi polisïau a rheolaethau mewnol ar waith ar gyfer gwrth-dwyll a llygredigaeth er mwyn cynnal safonau ymddygiad ac uniondeb uchel.
- Roi gwybod am unrhyw bryder i'r Cyngor a gweithio gyda'r Cyngor i fynd i'r afael â phryderon fel y bo'n briodol.

Archwilio Mewnol

- Asesu ac amlygu gwendidau a chymau gweithredu dilynol cytunedig i wella system reoli mewnol y Cyngor.
- Adolygu, nodi a chytuno ar gamau gweithredu i fynd i'r afael â'r risgiau o dwyll a llygredigaeth yn ystod archwiliadau.
- Cynghori ac arwain rheolwyr ar drefniadau gwrth-dwyll a llygredigaeth.
- Cefnogi ymchwiliadau i dwyll.

Archwilio Allanol

Diogelu stiwardiaeth arian cyhoeddus drwy gynnal adolygiadau penodol sydd wedi'u dylunio i brofi (ymhlith pethau eraill) digonolrwydd systemau a threfniadau ariannol y Cyngor ar gyfer atal a chanfod twyll. Nid yw atal twyll ac afreoleidd-dra yn rhan o swyddogaethau'r archwilwyr allanol, ond mae uniondeb cronfeydd cyhoeddus wastad yn fater cyffredinol o bryder.

Strategaeth ar Gyfer Atal a Chanfod Twyll, Llygredigaeth a Llwgrwobrwyo

Rhoi Gwybod am Dwyll, Llwgrwobrwyo a Llygredigaeth

Os ydych chi'n amau achos o dwyll, llwgrwobrwyo neu lygredigaeth yn erbyn y Cyngor, mae'n rhaid i chi fynegi'ch pryderon ar unwaith naill ai i'r Swyddog Monitro, y Swyddog Adran 151 neu i'r Prif Archwilydd Mewnol. Gwelwch Atodiad B ar gyfer canllaw i weithwyr ar sut i fynegi pryderon. Mae dulliau eraill o roi gwybod yn cynnwys:

- [Ebost i Chwythu'r Chwiban Archwilio Cymru](#)
- [Gwefan Protect \(Public Concern at Work gynt\)](#)

Rhannu Pryderon

Mae Deddf Datgelu Er Lles y Cyhoedd 1998 yn amddiffyn gweithwyr sydd â phryderon rhesymol. Ni fyddwch yn dioddef gwahaniaethu nac erledigaeth os ydych chi'n dilyn y polisi a'r gweithdrefnau cywir.

Gallwch naill ai fynegi'ch pryderon i'ch rheolwr atebol, i uwch-reolwr yn eich gwasanaeth neu i un o'r canlynol:

- Pennaeth y Gwasanaeth
- Cyfarwyddwyr Corfforaethol
- Prif Weithredwr
- Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd / Swyddog Monitro
- Prif Archwilydd Mewnol
- Pennaeth Gwasanaethau Cyllid ac Eiddo / Swyddog Adran 151
- Undeb Llafur

Monitro ac Adolygu

Bydd y strategaeth hon a'r Cynllun Ymateb i Dwyll yn cael eu hadolygu'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn effeithiol i atal a chanfod twyll a llygredigaeth. Gwneir hyn fel rhan o adolygiad a llunio'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol, sy'n adrodd ar unrhyw wendid sylweddol yn ymwneud â thwyll sydd wedi'i amlygu yn ystod y flwyddyn dan sylw.

Strategaeth ar Gyfer Atal a Chanfod Twyll, Llygredigaeth a Llwgrwobrwyo

Atodiad A: Cynllun Gweithredu Gwrth-Dwyll, Llygredigaeth a Llwgrwobrwyo

| Beth | Pwy | Pryd |
|---|---|---|
| Lansio'r Strategaeth ar gyfer Atal a Chanfod Twyll, Llygredigaeth a Llwgrwobrwyo a'r Cynllun Ymateb i Dwyll ar ôl i'r Uwch Dîm Arwain a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio eu cymeradwyo. Drwy Denbighshire Today i gychwyn ac yna mewn cyfarfodydd tîm Rheoli Gwasanaethau. | Swyddog Monitro a'r Prif Archwilydd Mewnol | Tachwedd 2021 – Mawrth 2022 |
| Archwilio'r posibilrwydd o gynnwys ymwybyddiaeth o dwyll mewn modwl e-ddysgu e.e. rhannu pryderon. | Rheolwr AD Strategol a'r Prif Archwilydd Mewnol | Mai 2022 |
| Datblygu staff i fod yn Dechnegwyr Gwrth-Dwyll Achrededig. | Archwilio Mewnol | Rhagfyr 2021 |
| Lansio'r Polisi Atal Gwyngalchu Arian diwygiedig a'i hyrwyddo i staff perthnasol. | Prif Gyfrifydd / Swyddog Adran 151 | Medi 2021 |
| Adolygu'r Polisi Rhannu Pryderon. | Swyddog Monitro | Ebrill 2022 |
| Adolygu'r trefniadau gwrth-dwyll fel rhan o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. | Gweithgor Llywodraethu Corfforaethol | Chwefror 2022 (a bob blwyddyn wedi hynny) |
| Diweddarau'r asesiad risg twyll a defnyddio'r canlyniadau i benderfynu ar yr Adolygiadau Gwrth-Dwyll rhagweithiol i'w cynnal fel rhan o'r Strategaeth Archwilio Mewnol pob blwyddyn. | Prif Archwilydd Mewnol | Mawrth 2022 (a bob blwyddyn wedi hynny) |

Strategaeth ar Gyfer Atal a Chanfod Twyll, Llygredigaeth a Llwgrwobrwyo

| Beth | Pwy | Pryd |
|---|------------------------|-----------------|
| <p>Datblygu sganio'r gorwel a rhannu gwybodaeth:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Defnyddio'r National Anti-Fraud Network (NAFN) • Cydweithio o fewn y Cyngor i nodi a monitro risgiau o dwyll a thuenniadau • Cydweithio gyda sefydliadau eraill fel Grŵp Twyll Cymru a Grŵp Twyll ALLau GC | Archwilio Mewnol | Parhaus |
| Adolygu a diweddarau Gweithdrefn Ymchwilio i Dwyll Archwilio Mewnol. | Prif Archwilydd Mewnol | 31 Rhagfyr 2021 |
| Parhau i gydlynu'r Fenter Twyll Genedlaethol ac adrodd ar y canlyniadau i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. | Archwilio Mewnol | Parhaus |
| Annog gwasanaethau i ddefnyddio AppCheck y Fenter Twyll Genedlaethol fel dull o atal twyll. | Archwilio Mewnol | Parhaus |

Strategaeth ar Gyfer Atal a Chanfod Twyll, Llygredigaeth a Llwgrwobrwyo

Atodiad B: Canllaw Rhoi Gwybod am Dwyll, Llygredigaeth a Llwgrwobrwyo

Twyll yw gweithred fwriadol i geisio cael budd neu achosi colled i rywun arall drwy wneud ymholiad anwir, methu â datgelu gwybodaeth neu gamddefnyddio sefyllfa.

Llygredigaeth/Llwgrwobrwyo yw cynnig, addo, rhoi, gofyn, cytuno i dderbyn neu dderbyn taliad neu fantais arall i ddarbwylllo neu wobrwyo unigolyn i ymgymryd â'i ddyletswyddau yn amhriodol.

DYLECH

- Nodi eich pryderon, enwau, disgrifiadau, dyddiadau, amseroedd, manylion sgysiau a thystion posibl, a llofnodi, dyddio a nodi'r amser ar eich nodiadau
- Cadw tystiolaeth y mae modd ei dinistrio yn ddiogel – peidiwch ag ysgrifennu arni na'i haddasu mewn unrhyw ffordd
- Rhoi gwybod am eich amheuron ar unwaith – gall oedi arwain at ragor o golledion
- Cadw cyfrinachedd – peidiwch â thrafod eich pryderon gydag unrhyw un nad oes arno angen gwybod

PEIDIWCH Â

- Wynebu'r sawl a ddrwgdybir na mynegi pryderon i eraill – gall hynny roi'r twyllwr ar ei wyladwriaeth, eich peryglu chi a pheryglu unrhyw ymchwiliad neu dystiolaeth
- Ymchwilio neu gasglu tystiolaeth eich hunain (oni bai bod y dystiolaeth ar fin cael ei dinistrio) – cysylltwch ag Archwilio Mewnol cyn gynted â phosibl i dderbyn cyngor
- Bod ofn mynegi'ch pryderon. Mae Deddf Datgelu Er Lles y Cyhoedd 1998 yn amddiffyn gweithwyr sydd â phryderon rhesymol

Os ydych chi'n amau twyll yn erbyn y Cyngor, rhowch wybod amdano ar unwaith:

- I'ch rheolwr atebol yn y lle cyntaf, os yn briodol **ac**

Strategaeth ar Gyfer Atal a Chanfod Twyll, Llygredigaeth a Llwgrwobrwyo

- I'r Prif Archwilydd Mewnol (Lisa Lovegrove), y Swyddog Monitro (Gary Williams) neu i'r Swyddog Adran 151 (Steve Gadd)
- Mewn [e-bost i'r Adain Archwilio Mewnol](#)

Strategaeth ar Gyfer Atal a Chanfod Twyll, Llygredigaeth a Llwgrwobrwyo

Appendix C: Risgiau o Dwyll

Mae 'Fighting Fraud & Corruption Locally Strategy for the 2020s' yn nodi'r meysydd canlynol fel risgiau sylweddol i Awdurdodau Lleol:

- Twyll gofal cymdeithasol: cyllidebau personol a thaliadau uniongyrchol – gorbwysleisio anghenion drwy wneud datganiadau anwir, cyflwyno hawliadau ar draws awdurdodau, camdriniaeth trydydd parti gan ofalwr, aelod o'r teulu neu sefydliad, hawlio budd-daliadau ar ôl marwolaeth
- Ysgolion
- Hawl i brynu (amherthnasol i Gymru)
- Gwyngalchu arian – dod i gysylltiad â thrafodion amheus
- Comisiynu gwasanaethau – yn cynnwys cydgomisiynu, mentrau ar y cyd, gwasanaethau masnachol, partneriaethau trydydd sector - gwrthdaro buddiannau, cyd-dwylo
- Tenantiaeth – ceisiadau twyllodrus am dai neu dwyll olyniaeth tenantiaeth, ac is-osod eiddo
- Caffael – materion tendro, contractau wedi'u rhannu, dyblygu anfonebau
- Cyflogau – gweithwyr ffug, hawliadau goramser, treuliau
- Twyll hunaniaeth – hunaniaeth ffug / unigolion ffug yn gwneud ceisiadau am wasanaethau / taliadau
- Treth y Cyngor – gostyngiadau ac eithriadau, cymorth treth y cyngor
- Bathodyn Glas – defnyddio bathodynau ffug/wedi'u haddasu, defnyddio'r bathodyn pan nad yw'r unigolyn anabl yn y cerbyd, defnyddio bathodyn unigolyn sydd wedi marw, bathodynau a roddir i sefydliadau yn cael eu camddefnyddio gan weithwyr
- Grantiau – gwaith ddim yn cael ei wneud, cronfeydd yn cael eu dargyfeirio, methu â datgan anghymhwyster
- Trethi busnes – ceisiadau twyllodrus am eithriadau a rhyddhad, eiddo heb ei restru
- Twyll yswiriant – hawliadau ffug, yn cynnwys baglu a syrthio

Strategaeth ar Gyfer Atal a Chanfod Twyll, Llygredigaeth a Llwgrwobrwyo

- Grantiau cyfleusterau i bobl anabl – ceisiadau twyllodrus i gartrefi sydd i fod i bobl anabl
- Cynlluniau teithio consesiwn – unigolion anghymwys yn defnyddio cynlluniau consesiwn
- Dim atebolrwydd i gronfeydd cyhoeddus – hawliadau twyllodrus o gymhwysra
- Cyfrifoldebau newydd – meysydd sydd wedi'u trosglwyddo i ofal awdurdod lleol
- Partneriaethau Mentrau Lleol – partneriaethau rhwng awdurdodau lleol a busnesau. Twyll caffael, twyll grantiau. Dylai bod pob Partneriaeth Menter Leol yn gorfforedig, gydag awdurdod lleol yn gorff atebol, mewn perthynas mwy ffurfiol a rheoledig. Mae'r prif faterion yn cynnwys trefniadau llywodraethu, gweithdrefnau ar gyfer dyrannu/blaenoriaethu grantiau
- Mewnfudo – yn cynnwys priodasau ffug. Hawl ffug i wasanaethau a thaliadau
- Troseddau sy'n ddibynnol ar seiber a thwyll sy'n cael ei alluogi gan seiber – yn galluogi amrywiaeth o dwyll sy'n arwain at ddargyfeirio cronfeydd a chreu ceisiadau ffug am wasanaethau a thaliadau